# LC1181

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005

Mae’r Gorchymyn yma’n diwygio darpariaethau amrywiol mewn is-ddeddfwriaeth. Daw'r diwygiadau o ganlyniad i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, sy’n darparu ar gyfer trin partneriaid sifil yn yr un ffordd â phobl briod o ran buddion a rhwymedigaethau.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Y cyfan sy’n cael ei ddweud yn Erthygl 2 yw "Mae'r Atodlen yn cynnwys diwygiadau i is-ddeddfwriaeth". Datgan ffaith yw hyn, ac nid yw’n ddigon ynddo’i hun i roi eu heffaith i’r diwygiadau. Mae angen estyn ychydig ar y geiriad yn Erthygl 2. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae paragraff 6 o’r Atodlen yn honni ei fod yn diwygio Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Ffurflenni Cymraeg) 1989. Cafodd y Gorchymyn hwnnw ei ddirymu gan Orchymyn Etholiadau Seneddol (Ffurflenni Cymraeg) 2005 a ddaeth i rym ar 7 Ebrill 2005 ac felly mae angen ei ddileu o’r Atodlen. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae paragraff 25 o’r Atodlen yn honni yn y testun Saesneg ei fod yn gwneud ychwanegiad ar ôl "former spouses". Yr ymadrodd sy’n cael ei ddefnyddio yn y Rheoliadau sy’n cael eu diwygio yw "surviving spouses" mewn gwirionedd. Mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio, yn gywir ddigon, at "gweddw". [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)]

Bernir bod pob un o’r rhain yn fân wallau drafftio a all gael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Mae’r Gorchymyn yn defnyddio ychydig bach o iaith sy’n benodol o ran rhywedd. Mae hyn wedi codi lle byddai newid ffurf y ddeddfwriaeth sy’n cael ei diwygio yn golygu diwygiadau helaeth sydd y tu hwnt i rychwant y pwer galluogi. Fe gaiff yr iaith yma ei dileu pan fydd newidiadau helaethach yn cael eu gwneud i’r offerynnau sy’n cael eu diwygio. [Rheol Sefydlog 11.7 (vii)]

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 22 Tachwedd 2005